

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2022



united
welsh

Mae United Welsh yn gorff arloesol nid-er-elw sy'n darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer pobl yn ne Cymru. Rydym yn cyflogi bron 400 person ac mae ein Grŵp yn cynnwys ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw Celtic Horizons; gwneuthurwr ffrâm bren Celtic Offsite; a Harmoni Homes Ltd sy'n adeiladu tai fforddiad-wy a thai i'w gwerthu ar y farchnad.

Ar hyn o bryd rydym yn rheoli ychydig dros 6000 cartref ar draws 11 awdurdod lleol a dros y pum mlynedd diwethaf wedi adeiladu dros 1000 cartref. Rydym yn darparu amrediad o lety, yn cynnwys Extra Care a chartrefi cymorth, ac wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i ddarparu prosiectau arbenigol sy'n helpu i ddiogelu llesiant pobl a'u cymell i fyw'n annibynnol o fewn y gymuned.

Rydym yn benderfynol o wneud gwahaniaeth, cadw pobl yn saff, anwesu amrywiaeth a herio anghy-draddoldeb, gweithio'n effeithiol ac effeithlon, a helpu pawb i wneud y gorau o'u bywydau.

Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i atal caethwasiaeth fodern ac i ganolbwyntio ar ddiogelu llesiant pobl a helpu dioddefwyr.

Mae ein mesurau i atal caethwasiaeth fodern yn gweithio ochr yn ochr â'n hymrwymiad i gynnal cy-draddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, a diogelu pobl. Rydym yn deall fod modd i ni weithredu i atal caethwasiaeth fodern o fewn ein cadwyni cyflenwi ac wrth weithio gydag unigolion bregus, gan weithio'n uniongyrchol gyda rhai a allai fod yn ddioddefwyr. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y gellid defnyddio ein cartrefi i danosod neu warchod unigolion a theuluoedd wedi'u masnachu - ac wedi ymrwymo i gyd-weithio â phartneriaid fel yr Heddlu i ymchwilio a thacio'r arferion annerbyniadwy ac anghyfreithlon hyn.

Datblygwyd ein datganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf yn 2021 ac felly rydym yn y camau cynnar o ddatblygu ein hymagwedd yn llawn.

Strwythur & cadwyni cyflenwi

Ein nod yw datblygu ein gwaith mapio cadwyn gyflenwi, asesiadau risg a'n hymagwedd at ddiwydrwydd dyladwy. Rydym wedi nodi'r cyflenwyr hynny sy'n cynrychioli 75% o'n gwariant ac wedi dechrau gwirio bod ganddynt ddulliau rhesymol o fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.

Bydd yn sefyll ochr yn ochr â'n mesurau diwydrwydd dyladwy fel cyflogwr Cyflog Byw.

Polisiau ym meysydd caethwasiaeth a marchnata pobl

Rydym eisoes wedi llunio:

- Polisiau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion

- Cod ymarfer staff

- Gweithdrefnau adrodd cyfrinachol (chwythu chwiban)

- Polisiau a gweithdrefnau recriwtio

Byddwn yn eu hadolygu yng nghyd-destun atal caethwasiaeth fodern ac yn datblygu polisiau a gweithdrefnau perthnasol eraill er mwyn darparu fframwaith er cynnal diwydrwydd dyladwy cyflenwyr a chefnogi dioddefwyr os datgelir caethwasiaeth fodern.

Mesurau effeithiol er taclo caethwasiaeth fodern

Rydym eisoes wedi cael profiad estynedig o gydweithio mewn partneriaeth ag eraill, megis gwasanae-thau cymdeithasol lleol, wrth gefnogi pobl yn dioddef caethwasiaeth fodern o fewn ein cymunedau. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y gellid defnyddio ein cartrefi i danosod neu warchod unigolion a theu-luoedd wedi'u masnachu - ac wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid fel yr Heddlu i ymchwilio a thaclo'r arferion annerbyniadwy ac anghyfreithlon hyn.

Byddwn yn adeiladu ar y profiad hwnnw wrth ddatblygu cynlluniau i daclo achosion caethwasiaeth fod-ern o fewn ein gweithlu, cadwyni cyflenwi neu sefyllfaoedd eraill.

Ein prif gonsyrn ar bob amser fydd llesiant dioddefwyr neu ddarpar ddioddefwyr.

Hyfforddiant

Er mwyn cefnogi'r camau uchod, byddwn yn hysbysu pob aelod staff o oblygiadau caethwasiaeth fod-ern, y niwed mae'n achosi a'r arwyddion er nodi ei fod yn digwydd.

Rhodddwyd cyhoeddusrwydd i rifyn cychwynnol y Datganiad hwn i'r holl staff yn ein cylchlythyr staff, gan eu gwahodd i gwblhau trwy ein modiwlau Hyb Dysgu ar-lein ar:

- Caethwasiaeth Fodern - crynodeb cyfreithiol

- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

- Arwyddion er nodi Masnachu Pobl

Byddwn yn ychwanegu at y modiwlau cyffredinol hyn gyda deunydd addas i'n meysydd gwaith.

An falch o fod yn rhan o Grŵp United Welsh

Rydym yn adeiladu cartrefi, yn creu cymunedau ac yn trawsnewid bywydau